YSGOLION

Gweithredoedd polisi allweddol mae UNSAIN am eu gweld gan lywodraeth Cymru yn y dyfodol

Yn ogystal â blaenoriaethau maniffesto cyffredinol UNSAIN Cymru, hoffai ein haelodau sy'n aelodau staff cynorthwyol mewn ysgolion i lywodraeth nesaf Cymru weithredu yn y meysydd a ganlyn.

- Sicrhau bod llesiant, iechyd a diogelwch pob aelod o staff yr ysgol (gan gynnwys cynorthwywyr dysgu; glanhawyr; staff arlwyo; goruchwylwyr amser cinio; staff gweinyddol; gofalwyr a mwy), yn flaenoriaeth yn y cynllun ar gyfer adferiad o'r pandemig Covid-19.
- Mynd i'r afael â'r anghysondeb mewn disgrifiadau swyddi ac o ran strwythurau graddio ar gyfer staff cynorthwyol mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru.
- Bod â'r nod o greu sefyllfa yng Nghymru lle mae trefniadau gweithio cymhleth yn ystod y tymor yn unig, cyflog isel a chytundebau dros-dro yn cael eu hosgoi trwy gynyddu'r cyllido ar gyfer ysgolion er mwyn galluogi cysondeb, sicrwydd swyddi a gwell amodau i gynorthwyo'r grŵp cofrestredig hwn o broffesiynwyr addysg.

Dylai llywodraeth Cymru ddefnyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Grŵp Tasg a Gorffen Staff Cynorthwyol Ysgolion y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion wrth fynd ati i sicrhau cydraddoldeb ledled Cymru ar gyfer staff cynorthwyol o ran cyflog; lleoliadau gwaith; mynediad at hyfforddiant a datblygiad proffesiynol a safoni rolau.

UNISON
Cymru Wales